Dŵr Cymru Welsh Water

Health, Safety and Wellbeing Policy Statement
Datganiad Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles

Welsh Water believes that everyone who works on our behalf, or is affected by what we do, has a fundamental right to return home safely at the end of each day. We have a core company value of 'Safety Takes Every Person' and want to ensure that everyone remains healthy and safe in the work environment.

The health, safety and wellbeing of our employees, our customers, our partners and contractors, our neighbours, and members of the public must always be our first priority. We are striving for continuous improvement of our safety culture and want everyone to be safe, healthy and happy every day. We have a long term health, safety and wellbeing improvement strategy to help us deliver our aspirations - our 'Journey to Zero'.

Throughout our business we want - and indeed expect - to see a positive and proactive health and safety culture. Safety Takes Every Person and all employees should understand that safety is an essential part of the way we manage our business and carry out our responsibilities. We will provide safe and healthy working conditions and a safe environment for employees to discuss their mental and physical health and challenge unsafe practices.

Alongside this we all must always seek to eliminate hazards and minimise the health and safety risks to ourselves and to anyone else who might be affected by what we do, day in day out.

This Policy is implemented through detailed procedures and specific safe systems of work which together are designed to ensure that risks to health, safety and wellbeing are understood and properly controlled.

We will achieve this by:

- Maintaining a health and safety management system that conforms to the requirements of ISO 45001 and is documented, implemented and maintained, whilst constantly committing to continuous improvement in our arrangements.
- Allocating health and safety roles appropriate to our organisational and management structures and promoting good leadership behaviour by clearly communicating expectations and responsibilities.
- Ensuring that our employees and those working with us are competent to meet the requirements of our health and safety management system and are able to minimise health and safety risks. We will provide training and involve employees in developing our management systems. This includes both occupational and process safety risks.
- Setting and reviewing, at least annually, health and safety objectives as part of our improvement strategy and continually monitoring and improving our health and safety performance.
- Identifying, and where reasonably practicable, adopting 'best practice' in managing health, safety and wellbeing. With a minimum standard of compliance with all relevant legal and other requirements designed to prevent injury and ill health.
- Consulting with our employees on matters relating to their health, safety and wellbeing while at work, and actively encouraging their participation to achieve our health, safety and wellbeing objectives.
- Ensuring that all who work on our behalf are familiar with this Policy, our expectations and the arrangements in place to prevent injury and ill-health.

The Board is actively involved in leading on health, safety and wellbeing and I have been appointed as the lead Executive Director for health and safety. However, our own health, safety and wellbeing, that of our employees and anyone impacted by what we do is everyone's responsibility and it is everyone's duty to ensure this is understood, accepted and given the attention and seriousness it deserves.

This Policy will be reviewed annually and when significant or material changes are identified.

Peter Perry
Chief Executive
Welsh Water
April 2020

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn credu bod gan bawb sy'n gweithio ar ein rhan neu y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, yr hawl sylfaenol i ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob dydd. Ein gwerth craidd fel cwmni yw 'Rhywbeth i Bawb yw Diogelwch' ac rydyn ni am sicrhau fod pawb yn cadw'n iach ac yn ddiogel yn amgylchedd y gwaith.

Iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion, ein cwsmeriaid, ein partneriaid a'n contractwyr, ein cymdogion a'r cyhoedd yw ein blaenoriaeth bennaf bob amser. Rydyn ni'n anelu at wella ein diwylliant diogelwch bob amser ac rydyn ni am i bawb fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus bob un dydd. Mae gennym strategaeth tymor hir i wella iechyd, diogelwch a lles i'n helpu ni i gyflawni ein dyheadau - ein 'Siwrnai i Sero'

Ar draws ein busnes, rydym am - ac yn wir, yn disgwyl - gweld diwylliant cadarnhaol a rhagweithiol o iechyd a diogelwch. Mater i Bawb yw Diogelwch, a dylai'r holl weithwyr ddeall bod diogelwch yn rhan annatod o'r ffordd rydyn ni'n mynd ati i reoli ein busnes a chyflawni ein cyfrifoldebau. Byddwn ni'n darparu amodau gwaith diogel ac iach ac amgylchedd diogel lle gall cyflogeion drafod eu hiechyd meddwl a chorfforol, a herio arferion nad ydynt yn ddiogel.

Yn ogystal, rhaid i bob un ohonom ymdrechu bob amser i ddileu peryglon a lleihau'r risgiau iechyd a diogelwch i ni'n hunain ac i unrhyw un arall y gallai ein gweithgareddau effeithio arnynt, bob un dydd.

Rhoddir y Polisi hwn ar waith trwy weithdrefnau manwl a systemau gwaith diogel penodol sydd, gyda'i gilydd, wedi eu dylunio i sicrhau bod risgiau i iechyd, diogelwch, a lles pobl yn cael eu deall a'u rheoli mewn ffordd briodol.

Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy:

- Gynnal system rheoli iechyd a diogelwch sy'n cydymffurfio â gofynion ISO 45001 ac sy'n cael ei dogfennu, ei gweithredu a'i chynnal, a hynny wrth ymrwymo bob amser i wireddu gwelliannau parhaus yn ein trefniadau.
- Dyrannu rolau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'n strwythurau trefniadaeth, a rheoli a hyrwyddo ymddygiad da o ran arweinyddiaeth trwy gyfleu disgwyliadau a chyfrifoldebau'n glir.
- Sicrhau bod ein gweithwyr a'r bobl sy'n gweithio gyda ni'n ddigon hyfedr i ddiwallu gofynion ein system rheoli iechyd a diogelwch, a'u bod yn gallu lleiafu'r risgiau o ran iechyd a diogelwch. Byddwn ni'n darparu hyfforddiant ac yn cynnwys gweithwyr wrth ddatblygu ein systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys risgiau o ran diogelwch galwedigaethol a phrosesau ill dau.
- Pennu ac adolygu amcanion iechyd a diogelwch, o leiaf bob blwyddyn, yn rhan o'n strategaeth ar gyfer gwella, a monitro a gwella ein perfformiad o ran iechyd a diogelwch yn barhaus.
- Clustnodi, a lle bo'n rhesymol o ymarferol, mabwysiadu 'arferion gorau' wrth reoli iechyd, diogelwch a lles gyda'r safonau cydymffurfio gofynnol o ran yr holl ofynion cyfreithiol, a gofynion perthnasol eraill sydd â'r nod o atal anafiadau ac afiechyd.
- Ymgynghori â'n gweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn y gwaith, ac annog eu cyfranogaeth yn ymarferol er mwyn cyflawni ein hamcanion o ran iechyd, diogelwch a lles.
- Sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar ein rhan yn gyfarwydd â'r Polisi hwn, ein disgwyliadau a'n trefniadau sy'n bodoli er mwyn atal anafiadau ac afiechyd.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan ymarferol wrth arwain ar faterion iechyd, diogelwch a lles, ac rydw i wedi cael fy mhenodi'n brif Gyfarwyddwr Gweithredol ar faterion iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae ein hiechyd, ein diogelwch a'n lles ein hunain, ein cydweithwyr ac unrhyw un y mae ein gwaith yn effeithio arno yn gyfrifoldeb i bawb, a dyletswydd pawb yw sicrhau eu bod yn deall ac yn derbyn hyn ac yn rhoi'r pwys haeddiannol iddo.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a phan clustnodir newidiadau arwyddocaol neu faterol.

Peter Perry
Prif Weithredwr
Dŵr Cymru
Ebrill 2020